# Geiriau Diflanedig



Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi partneru gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynhyrchu adnodd newydd sbon, Geiriau Diflanedig, sy'n llawn cyffro ac yn orlawn o wybodaeth a gweithgareddau i ysbrydoli dysgu yn y dosbarth a thu hwnt! Bydd yr adnodd yn galluogi disgyblion i gyrraedd holl feysydd dysgu'r Cwricwlwm i Gymru, drwy amrywiaeth o brofiadau gwreiddiol a chreadigol wedi eu selio ar y llyfr.

Hyd ddiwedd Ebrill 2024, mae arddangosfa Geiriau Diflanedig / The Lost Words i'w gweld yn yr Ysgwrn, gan gynnwys gwaith celf gwreiddiol ysbrydoliedig Jackie Morris a barddoniaeth arbennig Robert Macfarlane.

Ymwelwch â ni am gost o £5 y disgybl i gynnwys ymweliad â'r arddangosfa Geiriau Diflanedig / The Lost Words, cyfle i ddefnyddio gofod mewnol neu allanol yn Yr Ysgwrn i gwblhau gweithgareddau o'r adnodd addysg dan arweiniad eich staff eich hunain, taith dywys o ffermdy'r Ysgwrn, sgwrs a gweithgaredd anffurfiol dan arweiniad staff Yr Ysgwrn.

Pa le gwell na'r Ysgwrn i brofi rhyfeddod Geiriau Diflanedig? Dewch i brofi'r amgylchedd sy'n gynefin ac yn gartref i nifer o rywogaethau'r Geiriau Diflanedig a'r dirwedd a ysbrydolodd farddoniaeth Hedd Wyn. Bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl.

I drefnu eich ymweliad, cysylltwch â ni drwy ebostio yr.ysgwrn@eryri.llyw.cymru

CONWY
Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council

Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park

Yr Ysgwrn

ArtFund

Cyngor Llyfrau Cymru / Books Council of Wales